# Atodiad 3

## Cyngor Caerdydd
## Canllaw Adnodd Sgrinio Statudol

Os ydych yn datblygu strategaeth, polisi neu weithgaredd sy'n debygol o effeithio ar bobl, cymunedau neu ddefnydd tir mewn unrhyw ffordd, mae nifer o ofynion statudol perthnasol. Gall peidio â chydymffurfio â'r gofynion hyn neu beidio â dangos ystyriaeth ddyledus, olygu bod y Cyngor yn agored i her gyfreithiol neu gerydd ar ffurf arall.

Er enghraifft, bydd hyn yn berthnasol i strategaethau (h.y. Strategaeth Dai neu Strategaeth Chwarae i'r Anabl), polisïau (h.y. Polisi Caffael) neu weithgaredd (h.y. datblygu man chwarae newydd).

Bydd cwblhau'r Adnodd Sgrinio Statudol yn sicrhau bod holl strategaethau, polisïau a gweithgareddau Cyngor Caerdydd yn cydymffurfio â'r holl rwymedigaethau a chyfrifoldebau statudol perthnasol. Pan fo angen ystyried mater mewn mwy o fanylder, bydd yr Offeryn Sgrinio yn nodi a oes unrhyw angen am asesiad effaith llawn, fel y bo'n berthnasol.

Mae'r prif ofynion statudol y mae'n rhaid i strategaethau, polisïau neu weithgareddau eu hadlewyrchu yn cynnwys y canlynol:

- **Deddf Cydraddoldeb 2010 – Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb**
- **Bill Datblygu Cynaliadwy Llywodraeth Cymru**
- **Canllawiau Statudol Llywodraeth Cymru – Cydamcanu – Cydymdrechu**
- **Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn**
- **Egwyddorion y Cenhedloedd Unedig ar gyfer Pobl Hŷn**
- **Mesur y Gymraeg 2011**
- **Asesiad o Effaith ar Iechyd**
- **Asesiad Rheoliadau Cynefinoedd**
- **Asesiad Amgylcheddol Strategol**

Mae'r Adnodd Sgrinio Statudol yn ein galluogi i fodloni gofynion yr holl ddarnau hyn o ddeddfwriaeth fel rhan o ddull sgrinio integredig sydd fel arfer yn cymryd awr ar y mwyaf.

Gellir cwblhau'r Adnodd Sgrinio fel hunanasesiad neu fel rhan o sesiwn gyda hwylusydd petai angen rhagor o gymorth arnoch. I gael rhagor o wybodaeth neu os oes angen sesiwn wedi'i hwyluso arnoch, cysylltwch â'r Tîm Polisi, Partneriaethau a Ffocws Dinasyddion ar 2078 8563 e-bost: siadavies@caerdydd.gov.uk. Nodwch:

- **Mae'n rhaid cyflwyno'r Adnodd Sgrinio fel atodiad gyda'r adroddiad Cabinet.**
- **Cyhoeddir yr Adnodd Sgrinio wedi ei gwblhau ar y fewnrwyd.**

# Adnodd Sgrinio Statudol

| **Enw'r Strategaeth / Polisi / Gweithgaredd:**<br><br>**CYNLLUNIO TREFNIADAETH YSGOLION: DARPARIAETH YSGOL NEWYDD AR GYFER RHANNAU O GREIGIAU/SAIN FFAGAN, RADUR/PENTRE-POETH A'R TYLLGOED** | **Dyddiad Sgrinio:**<br><br>**Mehefin 2020** |
|---|---|
| **Gwasanaeth / Isadran:**<br>Addysg, Cyflogaeth a Sgiliau - Cynllunio Trefniadaeth Ysgolion | **Swyddog Arweiniol:** Richard Portas |
| **Mynychwyr:** Hunanasesu | |

| **Beth yw amcanion y Polisi/Strategaeth/Project/Gweithdrefn/Gwasanaeth/Swyddogaeth** | **Rhowch wybodaeth gefndirol am y Polisi/Strategaeth/Project/ Gweithdrefn/Gwasanaeth/Swyddogaeth ac unrhyw ymchwil a wneir [e.e. data defnyddwyr gwasanaeth yn erbyn ystadegau demograffig, Asesiadau o'r Effaith Amgylcheddol tebyg a wnaed ac ati.]** |
|---|---|
| Argymhellir bod y Cabinet yn:<br>○ cymeradwyo'r cynnig i sefydlu ysgol gynradd dwy ffrwd, dau ddosbarth mynediad gyda darpariaeth feithrin i wasanaethu camau cynnar datblygiad Plasdŵr yn unol â gofynion y Cod Trefniadaeth Ysgolion.<br>○ awdurdodi swyddogion i gymryd camau priodol i weithredu'r cynigion<br>○ awdurdodi swyddogion i gyhoeddi'r penderfyniad ymhen 7 diwrnod ar ôl penderfynu ar y cynnig<br>○ Dirprwyo'r gwaith cymeradwyo unrhyw gontractau angenrheidiol i'r Cyfarwyddwr Addysg a Dysgu Gydol Oes, wedi ymgynghori â'r Cyfarwyddwr Corfforaethol Adnoddau a Swyddogion Adran 151, Cyfarwyddwr y Gwasanaethau Cyfreithiol a'r Aelodau Cabinet ar ran Gwasanaethau Corfforaethol a Pherfformiad ac Addysg a Sgiliau. | **Datblygiadau tai newydd yng ngogledd-orllewin Caerdydd**<br><br>Mae nifer o ddatblygiadau tai newydd wedi eu cynnig yng ngogledd-orllewin Caerdydd yn y blynyddoedd diweddar a fydd yn cynyddu nifer y plant yn yr ardal sydd yn chwilio am lefydd ysgol ac a fydd yn effeithio ar argaeledd llefydd ysgol.<br><br>Mae Canllawiau Cynllunio Atodol y Cyngor yn nodi o dan ba amgylchiadau y gallai'r Cyngor geisio cyfraniadau a106 gan ddatblygwyr tuag at gyfleusterau ysgolion. Er mwyn cael cyfraniadau gan ddatblygwyr, byddai'n ofynnol i'r Cyngor ddangos tystiolaeth bod unrhyw rwymedigaeth yn bodloni'r meini prawf canlynol, sef ei bod yn:<br>• 1) Angenrheidiol i wneud y datblygiad yn dderbyniol o safbwynt cynllunio;<br>• 2) Ymwneud yn uniongyrchol â'r datblygiad; ac yn<br>• 3) Ymwneud yn deg a rhesymol o ran maint a math â'r datblygiad. |

| | |
|---|---|
| | Ni fyddai cyfraniadau a106 yn caniatáu i'r cyngor fuddsoddi mewn ysgolion i ddatrys anghenion presennol sydd wedi eu nodi. Gellir ceisio cyfraniadau dim ond pan fydd yr ysgolion sy’n lleol i ddatblygiad yn parhau i fod wedi'u tanysgrifio'n llawn, ac mae angen ehangu'r ddarpariaeth naill ai drwy ehangu'r ysgolion presennol neu adeiladu ysgolion newydd. Rhaid i'r tir, yr adeiladau neu'r cyfraniadau ariannol fod yn uniongyrchol gymesur â'r anghenion sy'n deillio o ddatblygiad.<br><br>Mae Cynllun Seilwaith Addysg y Cyngor, sydd wedi'i gynnwys yn y CDLl a Adneuwyd yn 2013, yn tynnu sylw at gynigion buddsoddi / datblygu arfaethedig ac yn nodi gofynion seilwaith yn y dyfodol yn seiliedig ar lefel a dosbarthiad amcanestynedig Caerdydd o ran twf.<br><br>Mae Cynllun Datblygu Lleol Caerdydd (CDLl) 2006 – 2026 wedi nodi safleoedd strategol allweddol i ddarparu 41,100 o anheddau newydd yng Nghaerdydd gan gynnwys Safle Strategol C yng ngogledd-orllewin Caerdydd i ddarparu hyd at 5,000 o anheddau yn ystod cyfnod y CDLl ond hyd at 7,000 o bosibl fel cyfanswm cyffredinol.<br><br>Manylwyd ar ysgolion cynradd newydd i wasanaethu Safle Strategol C yn y Cynllun Datblygu Lleol fel gofyniad polisi ar gyfer seilwaith hanfodol sy'n angenrheidiol i gefnogi'r datblygiad.<br><br>Rhoddwyd caniatâd cynllunio amlinellol ar gyfer adeiladu hyd at 630 o anheddau ar dir i'r gogledd a'r de o Heol Llantrisant, gan Bwyllgor Cynllunio'r Cyngor ym mis Chwefror 2016.<br><br>Mae cytundeb a106 a negodwyd gyda datblygwr y safle yn 2016 yn rhoi'r canlynol i'r Cyngor:<br><br>• Safle a neilltuwyd o fewn y datblygiad ar gyfer ysgol;<br>• Adeilad newydd ar gyfer ysgol gynradd mynediad dwy ffrwd<br><br>Mae'r datblygwr wedi cyflwyno amserlenni diwygiedig ar gyfer y |

| | |
|---|---|
| | datblygiad yn ddiweddar ac mae'r sefyllfa'n cael ei negodi.<br><br>Bydd y cyfnod cloi Covid-19 yn lleihau nifer yr anheddau a gwblheir o fewn y datblygiad yn sylweddol, ac yn ei dro bydd hyn yn lleihau faint o ddisgyblion o'r datblygiad fydd angen lle mewn ysgol yn 2021/22. |

## **Rhan 1:** *Effaith ar ganlyniadau ac ystyriaeth ddyledus i Ddatblygu Cynaliadwy*

| **Defnyddiwch y raddfa ganlynol wrth ystyried pa gyfraniad mae'r gweithgaredd yn ei wneud:** | | |
|---|---|---|
| **+** | Cadarnhaol | Cyfraniad cadarnhaol at y canlyniad |
| **-** | Negyddol | Cyfraniad negyddol at y canlyniad |
| **niwtral** | Niwtral | Cyfraniad niwtral at y canlyniad |
| **Ansicr** | Ansicr | Ansicr a oes unrhyw gyfraniad at y canlyniad |

| | **A ystyriwyd sut y bydd y Strategaeth/Polisi/Gweithgaredd yn effeithio ar un neu ragor o'r 7 Canlyniad sy'n Canolbwyntio ar Ddinasyddion Caerdydd?** | Ticiwch **+** | **-** | niwtral | Ansicr | **Tystiolaeth neu awgrym ar gyfer gwella/lliniaru** |
|---|---|---|---|---|---|---|
| **1.1** | **Mae pobl yng Nghaerdydd yn iach;**<br>*Ystyriwch yr effaith bosibl ar:*<br>• *hybu iechyd da, atal ymddygiad niweidiol, hyrwyddo bwyta'n dda/bywyd actif a.y.b.*<br>• *dinasyddion sy'n agored i niwed ac ardaloedd gydag amddifadedd lluosog*<br>• *mynd i'r afael ag achosion o anghydraddoldeb iechyd* | x | | | | - Gweler 1.2 isod – annog cerdded, beicio a defnyddio trafnidiaeth gyhoeddus |
| **1.2** | **Mae gan bobl yng Nghaerdydd amgylchedd glân, deniadol a chynaliadwy;**<br>*Ystyriwch yr effaith bosibl ar:*<br>• *achosion a chanlyniadau Newid yn yr Hinsawdd a chreu dinas carbon isel* | x | | | | - Byddai'r cynnig hwn yn golygu y byddai plant o'r ardaloedd lleol a'r cyffiniau yn mynychu adeilad ysgol newydd ddwy ffrwd addas ar gyfer yr 21ain Ganrif. Bwriedir darparu adeiladau cynaliadwy cost-effeithiol a fydd yn lleihau'r costau refeniw parhaus yn eu tro gan leihau ôl troed carbon y Cyngor yn unol â Strategaeth Leihau Carbon Caerdydd (Mai 2015). |
| | • *annog cerdded, beicio a defnyddio trafnidiaeth gyhoeddus a gwella mynediad i gefn gwlad a mannau agored* | x | | | | - Yn unol â Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol, mae'r Cyngor wedi ymrwymo i ddarparu ysgolion lleol i blant lleol, i annog y defnydd o ddulliau cynaliadwy o deithio i ysgolion, megis cerdded a beicio. Mae projectau ysgol yn ystyried materion trafnidiaeth wrth iddynt gael eu cynllunio a'r angen i ddarparu llwybrau mwy diogel i annog cerdded i'r ysgolion<br>- Hyrwyddo mentrau megis hyfforddiant Kerbcraft, |

| | A ystyriwyd sut y bydd y Strategaeth/Polisi/Gweithgaredd yn effeithio ar un neu ragor o'r 7 Canlyniad sy'n Canolbwyntio ar Ddinasyddion Caerdydd? | Ticiwch | | | | Tystiolaeth neu awgrym ar gyfer gwella/lliniaru |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | | + | - | niwtral | Ansicr | |
| | | | | | | hyfforddiant mewn sgiliau beicio a'r Awdurdod Lleol yn rhoi mesurau Teithio Llesol ar waith |
| | • *gostwng llygredd amgylcheddol (tir, aer, sŵn a dŵr)* | x | | | | - Byddai gweithredu cynllun teithio effeithiol yn lleihau'r angen am drafnidiaeth nad yw'n gynaliadwy, i ysgolion ac oddi yno |
| | • *gostwng defnydd o ynni ac annog gostwng gwastraff, ailddefnyddio ac adfer* | x | | | | - Caiff cynigion eu datblygu yn unol â Theclyn Mesur Buddion y Gymuned Llywodraeth Cymru, sy'n annog llai o ddefnyddio, lleihau gwastraff ac ailgylchu. |
| | • *annog bioamrywiaeth* | | | x | | - Cynhelir arolygon safle i sefydlu lefelau bioamrywiaeth a byddant yn archwilio cyfleoedd i ddatblygu mentrau priodol. |
| **1.3** | **Mae pobl Caerdydd yn ddiogel ac yn teimlo'n ddiogel;**<br>*Ystyriwch yr effaith bosibl ar:*<br>• *ostwng trosedd, ofn trosedd a gwella diogelwch unigolion*<br>• *mynd i'r afael ag ymddygiad gwrthgymdeithasol*<br>• *diogelu oedolion a phlant sy'n agored i niwed yng Nghaerdydd rhag niwed neu gamdriniaeth* | X<br>X<br>x | | | | - Mae gan bob ysgol yng Nghaerdydd bolisïau ar waith i sicrhau diogelu a llesiant staff, plant a phobl ifanc. |
| **1.4** | **Mae gan Gaerdydd economi sy'n ffynnu a llewyrchu;**<br>*Ystyriwch yr effaith bosibl ar:*<br>• *gystadleurwydd economaidd (gweithgarwch menter, mentrau cymdeithasol, enillion cyfartalog, gwella cynhyrchedd)*<br>• *helpu'r rhai nad ydynt mewn Addysg, Cyflogaeth na Hyfforddiant*<br>• *denu a chadw gweithwyr (swyddi a chyfleoedd hyfforddi newydd, cynyddu gwerth cyflogaeth)*<br>• *hybu cyfleoedd caffael lleol neu wella gallu cwmnïau lleol i gystadlu* | x | | | | - Byddai'r ysgol yn darparu cyflogaeth. |
| **1.5** | **Mae pobl Caerdydd yn cyflawni eu llawn botensial;**<br>*Ystyriwch yr effaith bosibl ar:*<br>• *hyrwyddo a gwella mynediad i ddysgu gydol oes yng* | x | | | | - Gyda darpariaeth chwaraeon sylweddol a hamdden ehangach yn cael eu sefydlu, neu eu datblygu, amcan allweddol mewn nifer o ysgolion yw galluogi trydydd parti i ddefnyddio cyfleusterau chwaraeon mewn ysgolion, ar sail |

| | A ystyriwyd sut y bydd y Strategaeth/Polisi/Gweithgaredd yn effeithio ar un neu ragor o'r 7 Canlyniad sy'n Canolbwyntio ar Ddinasyddion Caerdydd? | Ticiwch | | | | Tystiolaeth neu awgrym ar gyfer gwella/lliniaru |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | | **+** | **-** | niwtral | Ansicr | |
| | *Nghaerdydd*<br>• *codi lefelau sgiliau a chymwysterau*<br>• *rhoi'r dechrau gorau i blant*<br>• *gwella'r ddealltwriaeth o gynaliadwyedd*<br>• *mynd i'r afael â thlodi plant (tlodi ariannol, diffyg mynediad a diffyg cyfranogi)*<br>• *Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn ac Egwyddorion ar gyfer Pobl Hŷn* | | | | | ariannol gynaliadwy. Mae angen datblygu model dichonadwy ar gyfer pob ysgol ledled y ddinas, i'w cyrchu gan y cymunedau y maent yn eu gwasanaethu.<br><br>- Mae strategaeth Dinas sy'n Dda i Blant Caerdydd yn gosod hawliau a lleisiau plant a phobl ifanc wrth galon polisïau, strategaethau a gwasanaethau Caerdydd; eu cynnwys wrth wneud penderfyniadau a mynd i'r afael â'r rhwystrau sy'n cyfyngu ar eu cyfleoedd mewn bywyd. O'r herwydd, bydd yr ymgynghoriad cyhoeddus ar y cynnig yn cynnwys cynrychiolaeth gan blant a phobl ifanc.<br>- Yn amodol ar gymeradwyaeth, byddai unrhyw waith dylunio yn y dyfodol hefyd yn cynnwys cynrychiolaeth o blith plant a phobl ifanc. |
| **1.6** | **Mae Caerdydd yn lle gwych i fyw, gweithio a chwarae ynddo**<br>*Ystyriwch yr effaith bosibl ar:*<br>• *hybu amrywiaeth ddiwylliannol Caerdydd*<br>• *hybu cyfranogiad a mynediad i weithgarwch corfforol, hamdden a diwylliant i bawb*<br>• *cyfleoedd chwarae ar gyfer Plant a Phobl iIanc*<br>• *diogelu a gwella'r dirwedd a threftadaeth hanesyddol Caerdydd*<br>• *hyrwyddo cysylltiadau rhyngwladol y Ddinas* | x | | x | | - Gyda darpariaeth chwaraeon sylweddol a hamdden ehangach wedi eu sefydlu, neu yn cael eu datblygu, amcan allweddol mewn nifer o ysgolion yw galluogi trydydd parti i ddefnyddio cyfleusterau chwaraeon ysgolion, ar sail ariannol gynaliadwy. Mae angen datblygu model dichonadwy ar gyfer pob ysgol ledled y ddinas, i'w cyrchu gan y cymunedau y maent yn eu gwasanaethu. |
| **1.7** | **Mae Caerdydd yn gymdeithas deg, gyfiawn a chynhwysol.**<br>Ystyriwch yr effaith bosibl ar:<br>• *ddileu gwahaniaethu, aflonyddu neu erlid ar gyfer grwpiau cydraddoldeb* | x | | x | | - Gweler yr Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb isod ac wedi ei atodi.<br><br>- Byddai proses recriwtio'r Cyngor yn sicrhau bod arfer da yn cael ei ddilyn, gan gynnwys cymhwyso polisïau'r Cyngor ar |

| | A ystyriwyd sut y bydd y Strategaeth/Polisi/Gweithgaredd yn effeithio ar un neu ragor o'r 7 Canlyniad sy'n Canolbwyntio ar Ddinasyddion Caerdydd? | Ticiwch | | | | Tystiolaeth neu awgrym ar gyfer gwella/lliniaru |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | | + | - | niwtral | Ansicr | |
| | | | | | | gyfle cyfartal. |
| | • *a yw'r gymuned neu'r rhanddeiliaid wedi ymwneud â datblygu'r strategaeth/polisi/gweithgarwch?*<br>• *sut yr anogir cyfranogiad dinasyddion (gan annog gweithredoedd a fydd yn ystyried gwahanol ffurfiau ar ymgynghori trwy ymgysylltu'n fwy trylwyr i sicrhau cyfranogiad llawn o ran datblygu a darparu gwasanaeth)?* | X<br>x | | | | - mae ymgynghoriad cyhoeddus llawn wedi ei wneud. |
| | ***ASESIAD O'R EFFAITH AR GYDRADDOLDEB (Atodir hyn ar dudalen 13)***<br>*A fydd y Polisi/Strategaeth/Prosiect yn cael **effaith wahaniaethol** ar unrhyw rai o'r canlynol?* | | | | | |
| **1.8** | **Mae'r Cyngor yn sicrhau canlyniadau cadarnhaol ar gyfer y ddinas a'r dinasyddion trwy bartneriaethau cryf**<br>*Ystyriwch yr effaith bosibl ar:*<br>• *atgyfnerthu partneriaethau gyda'r sectorau busnes a gwirfoddol*<br>• *yr agenda gydweithio a'r potensial ar gyfer gwasanaethau a rennir, gweithio trawsffiniol ac arbedion effeithlonrwydd* | x | | | | 'Addewid Caerdydd' yw strategaeth ymgysylltu a datblygu ieuenctid y Cyngor. Mae Addewid Caerdydd yn nodi sut y bydd y Cyngor, ynghyd ag ystod eang o bartneriaid yn y sectorau cyhoeddus, preifat a'r trydydd sector yn cydweithio i sicrhau bod pen taith pob person ifanc yng Nghaerdydd yn gadarnhaol ar ôl yr ysgol, naill ai mewn cyflogaeth neu addysg bellach a hyfforddiant.<br><br>Hyd yma, mae dros 120 o fusnesau wedi addo cefnogi Addewid Caerdydd a darparu cyfleoedd i ysgolion a phobl ifanc, gan eu paratoi'n well ar gyfer byd gwaith, a chan gyfrannu at dwf economaidd y ddinas yn y dyfodol.<br><br>Mae cynigion y Cyngor ar gyfer Band B Ysgolion yr 21$^{ain}$ Ganrif, a Strategaeth Caerdydd 2020, yn nodi'n glir y cysylltiad rhwng gwella'r amgylchedd ar gyfer dysgu a chodi safonau cyrhaeddiad. |

| | A ystyriwyd sut y bydd y Strategaeth/Polisi/Gweithgaredd yn effeithio ar un neu ragor o'r 7 Canlyniad sy'n Canolbwyntio ar Ddinasyddion Caerdydd? | Ticiwch | | | | Tystiolaeth neu awgrym ar gyfer gwella/lliniaru |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | | + | - | niwtral | Ansicr | |
| | | | | | | Mae'r Cyngor yn awyddus i helpu i ddatblygu cyfleoedd rhwng ysgolion a busnesau, helpu i greu cronfa gynaliadwy o dalent ar gyfer anghenion gweithlu'r dyfodol, ac i ledaenu sgiliau ar draws y ddinas. Enghraifft o hyn yw'r Bartneriaeth Addysg Greadigol a sefydlwyd rhwng Ysgol Uwchradd Gymunedol Gorllewin Caerdydd a phartneriaid o'r diwydiannau creadigol i ddarparu cyfleoedd i bobl ifanc adael addysg gyda sgiliau a chymwyseddau ac i fod yn barod am waith.<br><br>Byddai'r datblygiadau ysgolion sylweddol arfaethedig yn darparu cyfleoedd ar gyfer partneriaethau cryf gyda busnesau a chyflogwyr o amrywiaeth o sectorau yn economi Caerdydd. Ymchwilir i gyfleoedd ar gyfer partneriaethau pellach a chânt eu datblygu yn unol â'r blaenoriaethau a nodir yn Addewid Caerdydd |

**CRYNODEB O'R GWERTHUSIAD (amlygu effeithiau cadarnhaol a negyddol y polisi/cynllun/project a asesir, dangos sut y mae'n cyfrannu at gynaliadwyedd economaidd, cymdeithasol ac amgylcheddol y ddinas):**

**Economaidd**

- Buddsoddiad mewn sefydlu ysgolion cynradd dwy ffrwd dau ddosbarth mynediad newydd, pob un â 48 o leoedd meithrin rhan-amser, a fyddai'n cefnogi cyflwyno cwricwlwm eang a chytbwys.
- Byddai'r ysgol newydd yn darparu cyfleoedd cyflogaeth.

**Cymdeithasol**

- Gallai fod potensial i'r gymuned ddefnyddio cyfleusterau'r ysgol y tu allan i oriau ysgol.

**Cynaliadwyedd Amgylcheddol**

- Byddai'r ysgol yn cael ei dylunio yn y fath fodd fel ei bod yn ceisio lleihau costau rhedeg ac effaith niweidiol ar yr amgylchedd.

**PA GAMAU GWEITHREDU SYDD WEDI EU NODI NEU NEWIDIADAU A WNAED I'R POLISI/CYNLLUN/PROJECT O GANLYNIAD I'R**

| GWERTHUSIAD HWN? |
| --- |
| Pe bai'r cynigion yn mynd rhagddynt, byddai asesiad o’r effaith ar gydraddoldeb yn cael ei gynnal i nodi hygyrchedd i'r safleoedd ysgolion newydd. Byddai'r asesiad o'r effaith ar gydraddoldeb yn ystyried polisïau megis Deddf Cydraddoldeb 2010, TAN 12: Dylunio 2014 yn ogystal â rheoliadau adeiladu megis, BS8300, Rhan M a Bwletinau Adeiladu perthnasol. |

## Rhan 2:*Sgrinio Asesiad Amgylcheddol Strategol*

| | | Oes | Nac Oes |
|---|---|---|---|
| 2.1 | Ydy'r cynllun neu raglen yn nodi'r fframwaith ar gyfer cydsynio i ddatblygu yn y dyfodol? | x | |
| 2.2 | Ydy'r cynllun neu raglen yn debygol o gael effaith amgylcheddol arwyddocaol, cadarnhaol neu negyddol? | | x |

| **Oes angen Asesiad Amgylcheddol Strategol Llawn?**<br>▪ **Os yw'r atebion i gwestiynau 2.1 a 2.2 ill dau wedi'u ticio', yr ateb yw 'Oes'**<br>▪ **Os oes angen AAS Llawn, cysylltwch â'r Uned Datblygu Cynaliadwy er mwyn trefnu (manylion isod)** | **Oes** | **Nac Oes**<br>X<br>Mae AAS wedi'i gynnal (ynghlwm) |
|---|---|---|

**Os nad ydych yn siwr o'ch atebion i'r cwestiynau uchod o ran yr AAS, cysylltwch â'r Uned Datblygu Cynaliadwy 2087 3228 neu datblygucynaliadwy@caerdydd.gov.uk**

## Rhan 3:*Asesiad Rheoli Cynefinoedd (ARhC)*

| | | Oes | Nac Oes | Ddim yn siŵr |
|---|---|---|---|---|
| 3.1 | Fydd y cynllun, project neu raglen yn arwain at weithgaredd sy'n effeithio ar safle Ewropeaidd, megis Aber Afon Hafren neu Goedwigoedd Ffawydd Caerdydd? | | x | |
| 3.2 | Fydd y cynllun, project neu raglen yn arwain y datblygiad tuag at ardal sy'n cynnwys safle Ewropeaidd, megis Aber Afon Hafren neu Goedwigoedd Ffawydd Caerdydd, neu'n effeithio'n anuniongyrchol ar safle Ewropeaidd? | | x | |
| 3.3 | A fydd angen ARhC llawn? | | x | |

Anfonir manylion y strategaeth at Ecolegydd y Sir yng ngham cwblhau'r broses er mwyn penderfynu a oes angen Asesiad Rheoli Cynefinoedd.Am ragor o wybodaeth, ffoniwch 2087 3215 neu e-bostiwch bioamrywiaeth@caerdydd.gov.uk

## Atodiad 1 – Gofynion Statudol

**Mae'n bosibl y bydd yr Adnodd Sgrinio Effaith yn nodi'r angen i gynnal asesiadau statudol penodol:**

- **Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb:** *Mae'r asesiad hwn yn ofynnol dan Ddeddf Cydraddoldeb 2010 a Rheoliadau Cydraddoldeb 2011 Llywodraeth Cymru.*
- **Bil Datblygu Cynaliadwy:***Bydd y Bil, pan ddaw i rym, yn ei gwneud yn ofynnol i ddatblygu cynaliadwy fod yn egwyddor drefniadol ganolog i'r sefydliad. Golyga hyn fod dyletswydd i ystyried datblygu cynaliadwy mewn penderfyniadau strategol.*
- **Cyflenwi a Rennir Pwrpas a Rennir***- Mae Llywodraeth Cymru yn ei gwneud yn ofynnol i awdurdodau lleol lunio cynllun integredig sengl i fodloni gofynion statudol dan amrywiaeth o ddeddfwriaeth. Felly mae'n rhaid i Gyngor Caerdydd ddangos ei gyfraniad tuag at gynllun integredig Caerdydd ei hun;"Beth Sy'n Bwysig".*
- **Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn:** *Mae canllawiau Deddf Plant 2004 i Gymru yn ei gwneud yn ofynnol i awdurdodau lleol a'u partneriaid ystyried Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn.*
- **Egwyddorion y Cenhedloedd Unedig ar gyfer Pobl Hŷn:***Mae'r egwyddorion yn gofyn am ystyriaeth o annibyniaeth, cyfranogiad, gofal, hunan-foddhad ac urddas.*
- **Mesur y Gymraeg 2011:** *Mae'r Mesur yn cadarnhau statws swyddogol y Gymraeg, Comisiynydd y Gymraeg a'r rhyddid i siarad Cymraeg.*
- **Asesiad o Effaith ar Iechyd:** *Mae AEI yn ystyried effeithiau posibl polisïau, rhaglenni neu brojectau ar iechyd poblogaeth*
- **Asesiad Amgylcheddol Strategol:** *Mae Asesiad Amgylcheddol Strategol (AAS) yn Gyfarwyddeb Ewropeaidd ar gyfer cynlluniau, rhaglenni a pholisïau sydd â goblygiadau o ran defnydd tir ac effeithiau amgylcheddol sylweddol.*
- **Asesiad Rheoli Cynefinoedd:***Mae Rheoliadau Cadwraeth (Cynefinoedd Naturiol, a.y.b.) (Diwygio) 2007 yn ei gwneud yn ofynnol i ymgymryd ag Asesiad Rheoli Cynefinoedd (ARhC) o gynlluniau defnydd tir.*

*Cyngor Caerdydd*

Asesiad o'r Effaith ar Gydraddolde

Templed Corfforaethol

| **Teitl Polisi/Strategaeth/Project/Gweithdrefn/Gwasanaeth/Swyddogaeth:**<br>**Cynnig i:**<br>sefydlu ysgol gynradd dau ddosbarth mynediad ddwy ffrwd newydd, wedi ei threfnu fel un ffrwd fynediad Gymraeg ac un ffrwd Saesneg yn bennaf, ond â defnydd helaeth o'r Gymraeg, i wasanaethu rhannau o ardaloedd Creigiau/Sain Ffagan, Radur/Pentre-poeth a'r Tyllgoed. |
|---|
| **Newydd** |

| **Pwy sy'n gyfrifol am ddatblygu a gweithredu'r Polisi/Strategaeth/Project/Gweithdrefn/Gwasanaeth/Swyddogaeth?** | |
|---|---|
| Enw:<br>Richard Portas | Teitl y Swydd:<br>Cyfarwyddwr Rhaglen - Cynllunio Trefniadaeth Ysgolion |
| Tîm Gwasanaeth: | Gwasanaeth:<br>Addysg a Dysgu Gydol Oes |
| Dyddiad Asesu: Mehefin 2020 | |

**1. Beth yw amcanion y Polisi/Strategaeth/Project/Gweithdrefn/ Gwasanaeth/ Swyddogaeth?**

**1. Rhowch wybodaeth gefndirol am y Polisi / Strategaeth / Project / Gweithdrefn / Gwasanaeth / Swyddogaeth ac unrhyw ymchwil a wneir [e.e. data defnyddwyr gwasanaeth yn erbyn ystadegau demograffig, Asesiadau o'r Effaith ar Gydraddoldeb tebyg a wnaed ac ati.]**

| **Adeilad ysgol gynradd 2 ddosbarth mynediad newydd ar ddatblygiad Plasdŵr** |
|---|

Mae ysgol newydd yn cael ei darparu gan ddatblygwr y safle fel rhan o'r cytundeb cynllunio gyda'r cyngor i ateb y galw ar y datblygiad newydd a'r tai sy'n cael eu cynllunio i'r dyfodol. Prif ddiben darpariaeth ysgol newydd yw i wasanaethu'r disgyblion a fydd yn byw o fewn y datblygiadau newydd – bod y ddarpariaeth newydd yn angenrheidiol ac yn gymesur â nifer y disgyblion a ddisgwylir i ddod o'r datblygiad.

Mae prif ddatblygwr datblygiad Plasdŵr yn cynnig adeiladu ysgol newydd dau ddosbarth mynediad mewn un cam i wasanaethu'r datblygiad. Byddai hyn yn sicrhau digon o lefydd i'r nifer disgyblion a ddisgwylir a fydd yn byw ar y datblygiad a fydd angen llefydd cynradd pan fydd y 630 o anheddau wedi eu cwblhau.

Byddai capasiti ychwanegol yr ysgol mewn ysgol 2 ddosbarth mynediad newydd yn ddigonol i ddiwallu anghenion y datblygiad. Byddai'r ysgol hefydd yn darparu digon o lefydd dros ben i ateb y galw am lefydd ysgol o'r 290 o anheddau sydd wedi eu cynllunio ar y safle i'r de o Heol Pentre-baen, a rhan o'r galw a ragamcennir o'r safle mwy yng ngogledd-orllewin Caerdydd o hyd at 5,000 o anheddau.

Cyfyngir safle arfaethedig yr ysgol gynradd yng nghanolfan yr ardal i uchafswm o 1.4 hectar o dir i gydymffurfio â chyfyngiadau PADHI'r Weithrediaeth Iechyd a Diogelwch mewn perthynas â phrif bibell nwy pwysedd uchel sy'n bod eisoes. Mae'r safle ysgol hwn yn ddigon o ran maint ar gyfer ysgol gynradd â dau ddosbarth mynediad, gyda llain chwarae ar y safle.

## 3 Asesu'r Effaith ar y Nodweddion Gwarchodedig

### 3.1 Oedran

A fydd y Polisi/Strategaeth/Project/Weithdrefn/Gwasanaeth/Swyddogaeth dan sylw yn cael **effaith wahaniaethol [gadarnhaol/negyddol]** ar bobl iau/hŷn?

| | Bydd | Na Fydd | Dd/B |
|---|---|---|---|
| 3 – 11 oed | x | | |
| 11 – 18 oed | x | | |

| | | | |
|---|---|---|---|
| 18 - 65 oed | x | | |
| Dros 65 mlwydd oed | x | | |

| **Rhowch fanylion/canlyniadau'r effaith wahaniaethol, a rhowch dystiolaeth ategol, os oes peth.** |
|---|
| **Darpariaeth addysgol (3 - 11 oed)**<br>Byddai'r cynnig yn darparu lleoedd mewn lleoliadau cyfrwng Saesneg a chyfrwng Cymraeg ar gyfer disgyblion 3 - 11 oed.<br><br>Mae'r ddarpariaeth hon felly yn ddibynnol ar oedran ac felly nid yw'n hygyrch i ddisgyblion y tu allan i'r ystod oedran hon, nac i oedolion, naill ai'n lleol neu yn y gymuned ehangach. Yn y cyd-destun hwn, ystyriwyd y canlynol:<br><br>• Y gofyniad am allu digonol i ateb y galw disgyblion cymunedol Saesneg a Chymraeg a ragamcanir yn y datblygiadau i'r gogledd a'r de o Heol Llantrisant;<br>• Ni fyddai cyfraniadau a106 yn caniatáu i'r cyngor fuddsoddi mewn ysgolion i ddatrys yr anghenion presennol a nodwyd. Gellir ceisio cyfraniadau dim ond pan fydd yr ysgolion sy'n lleol i ddatblygiad yn parhau i fod wedi'u tanysgrifio'n llawn, ac mae angen ehangu'r ddarpariaeth naill ai drwy ehangu'r ysgolion presennol neu adeiladu ysgolion newydd. Rhaid i'r tir, yr adeiladau neu'r cyfraniadau ariannol fod yn uniongyrchol gymesur â'r anghenion sy'n deillio o ddatblygiad. |
| **Pa gam(au) gweithredu y gallwch chi eu cymryd i fynd i'r afael â'r effaith wahaniaethol?** |
| Mae'r cyllid ar gyfer y cynnig hwn yn seiliedig ar rwymedigaethau cynllunio a106. O ganlyniad, nid yw'r arian hwn ar gael i ariannu projectau sydd â chylch gwaith ehangach na bodloni gofynion y ddarpariaeth addysgol o ganlyniad i'r datblygiad hwn.<br><br>Mae gan y Cyngor ddyletswydd statudol i ddarparu lleoedd disgyblion i fodloni anghenion pob disgybl yng Nghaerdydd. Fel rhan o'r dull strategol hwn, rhagwelir y galw ar sail:<br>- Lefel y boblogaeth y gwyddys sy'n byw ym mhob ardal yn ddiweddar ac yn hanesyddol, gan ddefnyddio data'r GIG;<br>- Nifer y disgyblion ar y gofrestr yn ysgolion Caerdydd yn ddiweddar ac yn |

| |
|---|
| hanesyddol ar sail data a ddilyswyd o CYBLD (Cyfrifiad Ysgolion Blynyddol ar Lefel Disgyblion).<br>- Canrannau diweddar a hanesyddol y plant sy’n mynychu lleoedd ysgol mewn ysgolion cymunedol ac ysgolion ffydd Saesneg a Chymraeg<br><br>Ystyriwyd darpariaeth ar gyfer grwpiau oedran nad ydynt wedi’i cynnwys gan y cynnig hwn fel rhan o waith yr awdurdod lleol o weithredu'r rhaglen Ysgolion yr 21ain Ganrif sy'n cynnwys darparu lleoedd mewn ysgolion ym mhob cyfnod addysg.<br><br>Ystyrir bod y project yn gynnig dilys i gyflawni'r nod a ddymunir. |
| **Os na cheir effaith wahaniaethol, esboniwch y rheswm/rhesymau am hynny ar gyfer yr asesiad hwn:** |
| |

**3.2 Anabledd a Mynediad**

A fydd y Polisi/Strategaeth/Project/Weithdrefn/Gwasanaeth/Swyddogaeth dan sylw yn cael **effaith wahaniaethol [gadarnhaol/negyddol]** ar bobl anabl?

| | Bydd | Na Fydd | Dd/B |
|---|---|---|---|
| Nam ar y Clyw | | x | |
| Nam Corfforol | | x | |
| Nam ar y Golwg | | x | |
| Anabledd Dysgu | | x | |
| Salwch neu Gyflwr Iechyd Tymor Hir | | | x |
| Iechyd Meddwl | | | x |
| Camddefnyddio Sylweddau | | | x |
| Arall | | | x |

| **Rhowch fanylion/canlyniadau’r effaith wahaniaethol, a rhowch dystiolaeth ategol, os oes peth.** |
|---|
| |
| **Pa gam(au) gweithredu y gallwch chi eu cymryd i fynd i’r afael â’r effaith wahaniaethol?** |
| |

| |
|---|
